



Russell George AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

14 Rhagfyr 2021

Annwyl Gadeirydd

Rwyf yn ysgrifennu mewn perthynas â'r trefniadau ar gyfer yr Ymchwiliad Cyhoeddus COVID-19 arfaethedig i'r DU gyfan, y disgwylir iddo ddechrau yn ystod y gwanwyn 2022.

Byddwch yn ymwybodol o ddatganiad cyhoeddus gan Lywodraeth y DU y caiff Cadeirydd i'r Ymchwiliad ei gyhoeddi cyn y Nadolig a phan gaiff y person hwnnw ei gyhoeddi, rydym yn disgwyl i wybodaeth am y Cylch Gorchwyl ddilyn yn gyflym wedi hynny. Bydd ymgynghoriad ar Delerau'r Ymchwiliad, a hynny ar ddechrau 2022 yn ôl pob tebyg. Rwyf yn awyddus i achub pob cyfle i lywio'r ymchwiliad er mwyn i lais a phrofiadau pobl Cymru chwarae rhan sylweddol yn yr ymchwiliad cyhoeddus o'r cychwyn cyntaf.

Byddai o gymorth cael gwybod pa gynlluniau sydd gan y Pwyllgor i ymgysylltu yn ehangach ac i gyfleu ffrwyth eu hystyriaeth ar y Cylch Gorchwyl pan gynhelir yr ymgynghoriad cyhoeddus.

Yn gywir

MARK DRAKEFORD

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.